## Papur Gwyn Amaeth Cymru

## Ffermwyr; cymerwch yr awenau – mae angen i chi arwain y ffordd!

## Gan Dr Glenda Thomas, Cyfarwyddwr, FWAG Cymru



**MAE yngynghoriad arbennig o bwysig allan gan Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Teitl y ddogfen yw Papur Gwyn Amaeth ac mae'n dilyn dau ymgynghoriad blaenorol sef "Brexit a'n Tir" a "Ffermio Cynaliadwy a'n Tir."**

Mae'r Llywodraeth yn mynnu newid y ffordd maent yn cefnogi amaethu yn gyfangwbwl. Mae'n arbennig o bwysig ein bod i gyd yn cymryd sylw ac yn ymateb i'r papur ymgynghorol hwn, sydd yn disgrifio y newidiadau arfaethedig, gan y byddant yn effeithio ar bob un ohonym.

Bwriad y Llywodraeth yw i gael gwared o'r Taliad Sengl yn ogystal â'r cynllun amaeth-amgylcheddol, Glastir. Yn cymryd ei le bydd un cynllun unigol a fydd yn seiliedig ar dalu am "nwyddau cyhoeddus". Mae'r nwyddau yma'n cynnwys gwasanaethau y mae ffermwyr yn eu darparu ond does dim taliad ar gael am y rhain fel arfer.

Maent yn bethau yr ydym ni i gyd yn eu cymryd yn ganiataol yn cynnwys gwarchod natur a bywyd gwyllt, cloi carbon yn y pridd, sicrhau ansawdd dŵr uchel, edrych ar ôl nodweddion pwysig ein tirlun yn cynnwys safleoedd hanesyddol, coedwigoedd a choed unigol, waliau cerrig, cloddiau a gwrychoedd ac yn y blaen.

Rydym yn gytun bod y syniad o gydnabod pa mor bwysig yw y nwyddau cyhoeddus a thalu amdanynt yn un da iawn ond mae ein pryderon yn ymwneud â pharodwydd ac awydd y Llywodraeth i ariannu'r rhain yn ddigonol ac yn deg.

Gallwch weld ôl yr holl reolaeth amgylcheddol mae ffermydd yn ei gyflawni drwy'r y tirlun yng nghefn gwlad. Mae'r mynyddoedd grug yn parhau fel y maent ond drwy reolaeth sy'n cynnwys eu pori ar raddfa amrywiol a'u llosgi neu dorri'r llystyfiant mewn cylchdro.

Mae'r cynefin yn andros o bwysig wrth reoli'r diadelloedd ar ran helaeth o'n mynyddoedd ac yr union mor bwysig ydi'r ffermwyr a'r bugeiliad sy'n adnabod y dirwedd ac yn meddu ar sgiliau magu anifeiliad da.

Yn aml efallai, bydd pobl yn meddwl am y ddafad o safbwynt cynyrchu cig a gwlân yn unih (er bod y cynnyrch hwnnw ddim yn gael ei barchu'r dyddiau yma fel y dylai), dim fel anifail sy'n rheoli ein cynefinoedd drwy bori'r llystyfiant. Yn yr un modd, mae gwartheg yn arbennig

o bwysig yn rheoli cynefinoedd gyda'r dull o bori yn golygu eu bod yn cadw planhigion fel brwyn a glaswellt y bwla i lawr sydd yn sicrhau bod blodau eraill mwy bregus yn parhau i ffynnu.

Felly i gadw'r holl cynefinoedd o dan rheolaeth mae angen yr anifeilaid fferm yn ogystal â rheolwyr ein hamgylchedd, sef y ffermwyr. Heb y rhain i gyd mae arna i ofn y bydd hi wedi canu arnom ni cyn belled â chadw cefn gwlad fel mae'r rhan fwyaf ohonom yn dymuno ei weld.

Yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf rydym wedi clywed llawer iawn gan y Llywodraeth a chyrff eraill am weithio mewn partneriaeth gyda ffermwyr a'r diwydiant amaeth yn ei chyfanrwydd.

Siom a syndod felly, bod y Papur Gwyn yma yn dechrau gyda thudalenau yn sôn am y pethau arferol.

Mae'n mynd ymlaen wedyn i sôn am asesu busnesau fferm a chynnig cyngor i ffermwyr ynglyn â hyn a'r llall. Llawer gwell fyddai gofyn i ffermwyr eu hunain i gymryd y cyfrifoldeb i asesu eu busnesau ac ysgrifennu'r cynllun fferm ar gyfer darparu'r nwyddau cyhoeddus.

Mae cynllun o'r fath yn llawer mwy tebygol o fod yn addas i bwrpas, yn ymarferol ac o lwyddo i gyrraedd yr amcanion. Yn naturiol, bydd llawer o ffermwyr yn chwilio am arweiniad wrth fynd ati i greu'r cynllun, ac os felly, dylent gael dewis pa unigolyn neu fudiad y byddant yn troi atynt; nid dewis y Llywodraeth.

Yn amlwg, bydd rôl bwysig i staff y Llywodraeth yn y senario yma drwy sicrhau ansawdd y cynlluniau fferm. Felly rydym yn galw ar ffermwyr i gymryd yr awenau, y cyfrifoldeb o greu'r Cynlluniau Fferm a sicrhau eu bod wrth y llyw.

**Mae'n bwysig iawn felly i ymateb i'r ymgynghoriad yma - sydd hefyd ar gael yma dan adran Trosglwyddo Gwybodaeth y wefan - a hynny erbyn y 25ain o Fawrth, 2021.**